



Gofal Iechyd Parhaus y GIG

Beth mae pobl wedi ei ddweud am y newidiadau rydyn ni eisiau eu gwneud



Cafodd y ddogfen yma ei hysgrifennu gan Lywodraeth Cymru. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o: **Gofal Iechyd Parhaus y GIG: Y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Cymru, Adroddiad Ymgynghori.**

Tachwedd 2019

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma



Dyma fersiwn hawdd ei ddeall. Mae'r geiriau a beth maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.

Efallai y byddwch chi angen help a chefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen yma. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.

Efallai bod rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain mewn **ysgrifen glas trwm** ac mae beth maen nhw'n feddwl yn cael ei esbonio yn y blwch o dan y gair.

Os ydy'r gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto mae mewn **ysgrifen glas normal**. Mae beth maen nhw'n feddwl yn y geiriau anodd ar dudalen 29.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl **Lywodraeth Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Cyfeiriad: Complex, Unscheduled Care and Disability Branch
Partnership and Cooperation Division
Welsh Government
4th Floor, North Cathays Park
Cardiff, CF10 3NQ

Gwefan:

<https://llyw.cymru/fframwaith-cenedlaethol-drafft-ar-gofal-iechyd-parhaus-y-gig>

E-bost: CHCFramework.Consultation@gov.uk



Cafodd y ddogfen yma ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma.....	2
Cyflwyniad.....	4
Beth mae pobl wedi ei ddweud.....	6
Cwestiwn 1.....	7
Cwestiwn 2.....	10
Cwestiwn 3.....	13
Cwestiwn 4.....	14
Cwestiwn 5.....	16
Cwestiwn 6.....	18
Cwestiwn 7.....	21
Cwestiwn 8.....	22
Cwestiwn 9.....	24
Cwestiwn 10.....	26
Cwestiwn 11.....	27
Beth fyddwn ni'n ei wneud nesaf.....	28
Geiriau anodd.....	29

Cyflwyniad




Rydyn ni eisiau gwneud newidiadau i'r canllaw sydd yn esbonio sut rydyn ni'n darparu **Gofal Iechyd Parhaus y GIG**. Rydyn ni eisiau ei wneud yn well.



Gofal Iechyd Parhaus y GIG ydy gofal a chefnogaeth i bobl sydd ag anghenion ychwanegol oherwydd eu iechyd. Yn fyr rydyn ni'n ei alw yn **GIP**.



Fe wnaethon ni ofyn i bobl beth roedden nhw'n feddwl am ein syniadau ni ar gyfer newidiadau i'r canllaw, Fe wnaethon ni hyn rhwng Mai ac Awst 2019.



Mae'r adroddiad yma yn adrodd am beth mae pobl wedi ei ddweud.



Rhaid i Fyrddau Iechyd a chynghorau weithio gyda'i gilydd i ddarparu **GIP**. Rhaid iddyn nhw wrando ar y canllaw. Mae'r canllaw yn dweud:



- Pwy sydd yn gallu cael **GIP**.
- Sut i benderfynu os ydy rhywun yn cael **GIP**.
- Beth mae'n rhaid i'r byrddau iechyd wneud.
- Beth mae'n rhaid i gynghorau wneud.



Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma:

<https://llyw.cymru/fframwaith-cenedlaethol-drafft-ar-gofal-iechyd-parhaus-y-gig>

Beth mae pobl wedi ei ddweud




Fe wnaethon ni gael atebion gan:

- Aelodau'r cyhoedd.
- Byrddau Iechyd Lleol – sydd yn darparu gwasanaethau iechyd ar draws Cymru.
- Cynghorau.
- Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus – yn gweithio ar draws pob gwasanaeth ym mhob cyngor.
- Grwpiau sydd yn siarad dros gleifion.
- Arolygwyr – pobl sydd yn edrych i weld pa mor dda ydy gwasanaethau.



Fe wnaethon ni gael 58 o ymatebion. Fe wnaethon ni ofyn 11 cwestiwn. Ond doedd pawb ddim wedi ateb pob cwestiwn.



Dyma beth wnaeth pobl ei ddweud i bob cwestiwn.

Cwestiwn 1

Rydyn ni'n newid y canllaw i ddarparu GIP. Ydych chi'n meddwl bod yna unrhyw broblemau mae angen inni ddelio â nhw i wneud yn siŵr ei fod yn cael ei ddefnyddio'n iawn?

Roedd 49 ateb i'r cwestiwn yma. Fe wnaeth pobl ddweud:



- Fe ddylen ni roi hyfforddiant i fyrddau iechyd a chynghorau ar y canllaw newydd. A hyfforddiant parhaus i'r holl staff.



- Mae cael amser i ddod i arfer gyda'r canllaw newydd yn syniad da. Ond roedd rhai yn meddwl nad oedd hyn yn help pan wnaethon ni newid y canllaw yn 2014. Roedden nhw'n dweud bod angen ffyrdd gwell i wneud yn siŵr bod y canllaw yn cael ei ddefnyddio'n iawn.



- Fe ddylen ni gael enghreifftiau o'r ffyrdd gorau o weithio ar ein gwefan o'r enw **Safle Gwybodaeth a Chefnogaeth Gofal Cymhleth**:
www.gcsqc.org.uk/



- Fe ddylen ni helpu i wneud materion rhwng **GIP** a'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn fwy clir.



Roedd rhai pobl yn hoffi'r syniad o gael rhestr wirio i helpu i benderfynu pwy ddylai gael **GIP**. Roedden nhw'n dweud:



- Fe ddylai staff gael hyfforddiant fel bod pawb yn gallu defnyddio'r rhestr wirio yn yr un ffordd.



- Fe ddylen ni edrych i weld pa mor ddefnyddiol ydy'r rhestr wirio.



- Mae angen inni ddweud yn fwy clir pwy ddylai ddefnyddio'r rhestr wirio. A beth i wneud os nad ydy rhywun yn hapus gyda'r penderfyniad sydd wedi cael ei wneud ar ôl defnyddio'r rhestr wirio.

Beth byddwn ni'n ei wneud



Fe fyddwn ni'n gweithio gyda byrddau iechyd a chynghorau i ysgrifennu hyfforddiant.



Fe fyddwn ni'n gweithio gyda phartneriaid i wella sut rydyn ni'n edrych i weld sut mae **GIP** yn cael ei ddarparu.



Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod holl staff **GIP** yn gallu defnyddio'r wefan. Ac yn cael yr holl wybodaeth maen nhw angen i ddarparu **GIP**. Fe fyddwn ni'n diweddarau'r wefan.



Rydyn ni'n gweithio i wneud materion o gwmpas y **Ddeddf Iechyd Meddwl** yn fwy clir.



Fe fyddwn ni'n meddwl am ailysgrifennu'r cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio'r rhestr wirio.

Cwestiwn 2

Mae'r canllaw ar gyfer staff sydd yn rhedeg gwasanaethau. Ddylen ni wneud canllaw sydd yn fwy hawdd i staff a phobl sydd yn defnyddio'r gwasanaethau?

Roedd 44 ateb i'r cwestiwn yma. Fe wnaeth pobl ddweud:



- Fe fyddai canllaw mwy hawdd yn ddefnyddiol i staff. Ond fe fyddai hyn yn waith mawr.



- Fe fyddai canllaw mwy hawdd yn ddefnyddiol iawn i'r cyhoedd. Oherwydd fyddai dim rhaid iddyn nhw ddibynnu ar staff i esbonio **GIP** iddyn nhw.




- Mae rhannau newydd am ofalwyr yn dda. Fe ddylen ni ysgrifennu rhywbeth yn y canllaw i atgoffa gofalwyr eu bod nhw'n gallu cael **asesiad gofalwr**.

Asesiad gofalwr ydy pan rydych chi'n cael eich holi am eich cyfrifoldebau gofalu chi a pha gefnogaeth rydych chi ei angen.



- Dydy'r cyhoedd ddim yn gwybod am **GIP**. Fe ddylen ni wneud gwaith i ddweud wrth ragor o bobl am **GIP** pan rydyn ni'n lansio'r canllaw newydd.



Fe wnaeth rhai pobl ddweud nad oedden ni angen canllaw oedd yn fwy hawdd oherwydd:

- mae gennym ni daflenni am **GIP** i'r cyhoedd nawr



- efallai bydd fersiwn mwy hawdd yn anghofio manylion pwysig.

Beth byddwn ni'n ei wneud



Yn lle gwneud canllaw mwy hawdd i staff rydyn ni'n meddwl y byddai hi'n well ysgrifennu:

- enghreifftiau o'r ffyrdd gorau o weithio
- cwestiynau cyffredinol



Fe fyddwn ni'n ygrifennu llyfryn am **GIP** i'r cyhoedd.



Fe fyddwn ni'n gweithio gyda grwpiau o gleifion ac unigolion i ysgrifennu'r llyfryn am **GIP**.



Fe fydd yr holl wybodaeth yn y llyfryn am beth mae pobl ei angen i ddeall am:



- Beth fydd yn digwydd pan maen nhw'n mynd drwy'r broses **GIP**.



- Eu hawliau nhw.



- Pwy sydd y gyfrifol am eu hanghenion gofal a'u cefnogaeth nhw.



- Lle i gael cyngor a chefnogaeth.



Fe fydd y llyfryn yn barod erbyn Ebrill 2020 ac fe fyddwn ni'n ei anfon allan gyda'r canllaw newydd. Fe fyddwn ni'n defnyddio'r llyfryn i ddweud wrth ragor o bobl am **GIP**.

Cwestiwn 3

Ydy'r newidiadau rydyn ni eisiau eu gwneud yn dweud yn glir sut y dylai GIP gael ei drefnu?

Roedd 42 ateb i'r cwestiwn yma. Fe wnaeth pobl ddweud:



- Mae'r canllaw newydd yn fwy clir. Ond dydy rhai pethau ddim yn ddigon clir. Er enghraifft y rhestr wirio, yr arian i dalu am **GIP** a **Thaliadau Uniongyrchol**.



Taliad Uniongyrchol ydy pan rydych chi'n cael arian i brynu eich cefnogaeth a'ch gwasanaethau eich hun.



Dydych chi ddim yn gallu defnyddio **Taliadau Uniongyrchol** i dalu am **GIP**.



- Fe ddylai pawb wybod pwy sydd yn gyfrifol os ydy penderfyniad yn hwyr. Fe fyddai'n syniad da cael canllaw ychwanegol i ddweud pwy sydd yn gyfrifol am beth.



Fe wnaeth cynghorau ddweud eu bod nhw eisiau inni edrych ar sut rydyn ni'n cadw llygad ar **GIP**. Ac fe ddylen ni edrych ar bob penderfyniad os ydyn nhw wedi penderfynu rhoi **GIP** i rywun neu beidio. Maen nhw hefyd eisiau gweld pob adroddiad mae byrddau iechyd yn eu hysgrifennu ar **GIP**.

Beth byddwn ni'n ei wneud



Fe fyddwn ni'n gweithio gyda byrddau iechyd a chynghorau i wneud yr holl feysydd sydd wedi cael eu nodi yn fwy clir.



Rydyn ni wedi dechrau edrych ar sut rydyn ni'n cadw llygad ar **GIP**. Fe fydd y dull newydd yma yn barod ym mis Ebrill 2020 gyda'r canllaw newydd.

Cwestiwn 4

Sut rydyn ni'n gallu gwneud y siŵr bod cyrff fel byrddau iechyd a chynghorau yn gweithio'n dda gyda'i gilydd?

Roedd 44 ateb i'r cwestiwn yma. Fe wnaeth pobl ddweud:



- Fe fydd y canllaw yn helpu pobl i weithio'n dda gyda'i gilydd i roi gofal a chefnogaeth a rheoli arian. Ac fe fydd yr holl staff **GIP** o fyrddau iechyd a chynghorau yn cael hyfforddiant gyda'i gilydd.



- Mae cynghorau eisiau cymryd mwy o ran mewn gwneud penderfyniadau am **GIP**; nid mewn cyfarfod **Offeryn Cefnogi Penderfyniad**.



Maen nhw'n meddwl y bydd hyn yn helpu i stopio oedi oherwydd dadlau dros pwy ddylai dalu am ofal a chefnogaeth. Fe ddylai cyngorau fod ym mhob cyfarfod **GIP** pwysig.



Mae'r **Offeryn Cefnogi Penderfyniad** yn ein helpu ni i benderfynu pwy sydd angen **GIP**.

Beth byddwn ni'n ei wneud



Fe fyddwn ni'n siarad am sut y mae cyngorau yn gallu cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau ar ôl y cyfarfod **Offeryn Cefnogi Penderfyniad**.



Rydyn ni'n meddwl ei bod hi'n bwysig i gyngorau fod mewn cyfarfodydd pwysig am **GIP**.

Cwestiwn 5

Ydych chi'n meddwl y bydd y canllaw newydd am sut rydyn ni'n darparu GIP yn fwy clir?

Roedd 39 ateb i'r cwestiwn yma. Fe wnaeth pobl ddweud:



- Dydy rhai rhannau o'r canllaw ddim yn ddigon clir.



- Mae yna dîm o bobl sydd yn gwneud penderfyniadau am pwy sydd yn **gymwys** i gael GIP.



Mae **cymwys** yn meddwl bod gennych chi hawl i gael GIP oherwydd eich anghenion iechyd.

Tystiolaeth

Mae'r canllaw newydd yn dweud bod byrddau iechyd yn gallu gofyn i'r tîm roi rhagor o brawf am y penderfyniad os nad ydyn nhw'n cytuno.



Mae rhai pobl yn meddwl y dylai hyn gael ei dynnu allan. Dim ond mewn amgylchiadau arbennig y dylai byrddau iechyd gael gwneud hyn.



Fe wnaeth y rhan fwyaf o bobl ddweud nad oedd hi ddim yn glir eto beth ddylai ddigwydd pan mae rhywun sydd yn cael **Taliadau Uniongyrchol** yn dod yn **gymwys** am **GIP**. Roedden nhw'n dweud bod angen enghreifftiau o'r ffordd orau i ddelio â hyn.

Beth byddwn ni'n ei wneud



Fe fyddwn ni'n edrych ar ffordd o wneud y canllaw yn fwy clir lle mae angen. Yn cynnwys y rhannau am y tîm gwneud penderfyniadau yn rhoi mwy o brawf i'r bwrdd iechyd.



Fe fyddwn ni'n gweithio gyda phartneriaid i ddelio â'r broblem gyda **GIP** a **Taliadau Uniongyrchol**.

Cwestiwn 6

Rydyn ni eisiau gwneud newidiadau i:

- **Asesiadau**
- Penderfynu os ydy rhyw yn gymwys am GIP
- Defnyddio rhestr wirio ac **Offeryn Cefnogi Penderfyniad**.

Ydych chi'n cytuno â'r newidiadau rydyn ni eisiau eu gwneud i'r meysydd yma?



Asesiad ydy pan mae rhywun yn edrych ar eich anghenion gofal a chefnogaeth a sut maen nhw'n gallu cael eu hateb.



Roedd 48 ateb i'r cwestiwn yma. Fe wnaeth pobl ddweud:

- Mae'r canllaw newydd a'r **Offeryn Cefnogi Penderfyniad** wedi ei osod allan yn dda.
- Fe ddylen ni gael siart llif yn y canllaw. I ddangos sut y dylai **GIP** weithio. A pa mor hir y dylai bopeth ei gymryd.
- Does dim angen inni newid yr **Offeryn Cefnogi Penderfyniad**. Oherwydd efallai y bydd hyn yn newid pwy sydd yn cael **GIP**. Fe ddylen ni esbonio pam ein bod ni wedi awgrymu newidiadau i'r **Offeryn Cefnogi Penderfyniad**.





- Ddylen ni ddim dweud 'sgorio'. Fe ddylen ni ddweud '**asesu** lefelau o angen'. I gadw'r ffocws ar anghenion pobl.



- Rhaid i'r bobl o'r tîm gsetwneud penderfyniadau gymryd rhan yn yr:



- **Offeryn Cefnogi Penderfyniad**



- **Asesiad**



- Darparu gofal a chefnogaeth



Mae'r canllaw newydd yn dweud mai dim ond pan mae'n bosibl y mae angen i hyn ddigwydd.

Beth byddwn ni'n ei wneud



Fe fyddwn ni'n ychwanegu siart llif i'r canllaw. Ac fe fyddwn ni'n ei roi yn y llyfryn am **GIP** hefyd.



Fe fyddwn ni'n edrych ar beth sydd yn digwydd ar ôl y rhestr wirio. Fe fyddwn ni'n newid y canllaw i wneud hyn yn fwy clir neu fe fyddwn ni'n rhoi hyfforddiant ar y rhestr wirio.



Rydyn ni eisiau i'r tîm gwneud penderfyniadau gymryd rhan pan mae hynny'n bosibl yn lle bob amser. I helpu stopio oedi wrth wneud penderfyniadau a rhoi cefnogaeth. Fe fyddwn ni'n gwneud y canllaw yn fwy clir ar hyn.



Fyddwn ni ddim yn newid y rheolau am pwy sydd yn **gymwys** am **GIP**. Fe fyddwn ni'n gsetwneud yn siŵr nad ydy'r **Offeryn Cefnogi Penderfyniad** yn newid pwy sydd yn **gymwys** am **GIP**.



Fe fyddwn ni'n newid 'sgorio' i '**asesu** lefelau o angen' ym mhob dogfen am **GIP**.

Cwestiwn 7

Ydych chi'n meddwl bod pobl a'u teuluoedd yn cymryd digon o ran mewn [asesiadau](#)?

Roedd 43 ateb i'r cwestiwn yma. Fe wnaeth pobl ddweud:



- Mae'n beth da bod y canllaw yn siarad am bobl a'u teuluoedd yn cymryd rhan. Ond mae angen i hyn ddigwydd yn fwy aml, ar draws Cymru. Fe ddylai staff GIP gael hyfforddiant ar wrando ar deulu, ffrindiau a gofalwyr.

Beth byddwn ni'n ei wneud



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod pobl a theuluoedd yn cymryd rhan yn llawn. Mae angen inni wneud rhagor fel bod hyn yn digwydd go iawn. Rydyn ni'n cytuno bod angen i bobl allu siarad gyda'r timau gwneud penderfyniadau. Ac y dylai staff **GIP** gael hyfforddiant.



Rydyn ni'n meddwl y bydd y llyfryn am **GIP** yn helpu hefyd. Fe fydd y llyfryn yn rhoi'r wybodaeth y mae pobl a'u teuluoedd ei angen i gael llais a rheolaeth.

Cwestiwn 8

Ydych chi'n meddwl y bydd y canllaw newydd yn gweithio'n dda gyda rheolau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol eraill?

Roedd 44 ateb i'r cwestiwn yma. Fe wnaeth pobl ddweud:

- Dydy hi ddim yn glir sut mae'r canllaw yn cysylltu gyda rheolau fel:

– **Cod Ymarfer ar Ddarpariaeth Gwasanaethau Awtistiaeth**




– **Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg**



– **Teimlo'n unig ac yn ynysig**



- Mae'r canllaw yn cysylltu â'r **Cynllun Gweithredu Dementia Cenedlaethol**. Ond mae angen inni wneud yn siŵr bod hyn yn digwydd. Fe ddylai'r canllaw ddweud y bydd pob **asesiad** yn cael eu huno ag unrhyw **asesiadau** eraill mae person yn eu cael.





- Does dim digon o ffocws yn y canllaw ar y **Model Cymdeithasol**.



Mae'r **Model Cymdeithasol** yn canolbwyntio ar sut rydyn ni'n gallu gwneud newidiadau i gefnogi pobl. Yn lle eu trin nhw yn unig oherwydd bod rhywbeth o'i le arnyn nhw.



- Mae angen inni wneud rhagor i wneud yn siŵr bod plant sydd yn symud i wasanaethau oedolion yn cael eu cefnogi. Does dim digon yn y canllaw am hyn.



Beth byddwn ni'n ei wneud

Fe fyddwn ni'n gwneud rhagor o waith ar gysylltu'r canllaw gyda rheolau eraill.



Rhaid i fyrddau iechyd a chynghorau wneud yn siŵr bod teuluoedd yn gwybod am y newidiadau i ofal a chefnogaeth pan mae plentyn yn symud i wasanaethau oedolion. Mae gwybodaeth yn y canllaw am hyn.



Ac mae yna adnoddau da iawn ar y wefan i gefnogi staff **GIP** gyda hyn. Fe fyddwn ni'n gweithio gyda phartneriaid i wneud yn siŵr bod yr adnoddau yma yn gweithio.

Cwestiwn 9

Rydyn ni wedi siarad am adolygiadau ôl-weithredol. Ac wedi dweud y dylai fod 2 gam i hyn. Ydych chi'n cytuno â beth rydyn ni eisiau ei newid?

Roedd 43 ateb i'r cwestiwn yma. Fe wnaeth pobl ddweud:

- Fe fydd y newidiadau yn y canllaw newydd yn helpu i ddelio ag **adolygiadau ôl-weithredol**.



Adolygiad ôl-weithredol ydy pan mae rhywun yn gofyn i gael edrych ar y gofal maen nhw wedi ei gael. Er enghraifft, pan maen nhw wedi talu tuag at eu gofal ond yn meddwl bod hyn yn anghywir.



Doedd rhai pobl ddim yn cytuno â hyn oherwydd:



- Dydy hi ddim yn glir pa mor hir sydd gennych chi ar ôl i benderfyniad gael ei wneud i **apelio**.



Apêl ydy pan rydych chi'n gofyn i benderfyniad gael ei newid.



- Dydy pobl ddim yn cael digon o amser i [apelio](#). Mae'r canllaw yn dweud bod gan bobl 2 diwrnod. Ond fe ddylai hyn fod yn 6 mis.



- Mae gan ddarparwyr ormod o amser i ddangos y cofnodion sydd eu hangen am [adolygiad](#). Roedd byrddau iechyd yn dweud y dylai fod pecyn offer defnyddiol ar y wefan i'w helpu nhw i ddelio yn fwy cyflym gydag adolygiadau.



Beth fyddwn ni'n ei wneud

Fe fyddwn ni'n gweithio ar wneud y geiriau yn fwy clir am pa mor hir sydd gennych chi i [apelio](#).



Rydyn ni'n cytuno nad ydy 28 diwrnod yn ddigon i gael popeth yn barod. Fe fyddwn ni yn ei gwneud yn fwy clir bod gennych chi 28 diwrnod i **ddweud** wrth y bwrdd iechyd eich bod chi eisiau [apelio](#).



Fe fyddwn ni'n newid yr amser sydd gennych chi i [apelio](#) i 6 neu 12 mis. Dim ond i benderfyniadau sydd wedi cael eu gwneud ar ôl i'r canllaw newydd ddod allan y bydd hyn yn cyfrif.



Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod pecyn cymorth defnyddiol ar y wefan i helpu i ddelio yn fwy cyflym ag [apeliadau](#).

Cwestiwn 10

Ydych chi'n meddwl y bydd y Gymraeg yn cael ei defnyddio yr un fath â Saesneg yn y canllaw newydd?

Fe wnaeth pobl ddweud:



Cymraeg



Cyngor




Cymraeg

- Fe ddylai'r canllaw newydd fod ar gael yn Gymraeg.
- Dydy'r canllaw ddim yn gwneud digon i wneud yn siŵr bod pobl yn gallu cael gwasanaethau yn Gymraeg.
- Mae'n bwysig bod pobl gyda **Dementia** yn gallu cael gwasanaethau yn eu mamiaith. Sydd efallai yn Gymraeg.

Cyflwr ydy **Dementia** lle mae pobl yn cael problemau gyda'u cof ac maen nhw'n gallu bod yn ddryslyd.

- 
- Mae cael siaradwyr Cymraeg i fynd i gyfarfodydd **asesu** yn gallu achosi oedi.



Cynllun

- Mae **Comisiynydd y Gymraeg** wedi dweud bod rhaid inni gynllunio i ddarparu gwasanaethau GIP yn Gymraeg. Ac fe ddylai hyn gael ei ychwanegu at y canllaw.



Beth byddwn ni'n ei wneud

Fe fyddwn ni'n cynnig dewis i bobl gael gwasanaerthau **GIP** yn Gymraeg. Ddylen nhw ddim gorfod gofyn am hynny.



Rhaid i fyrddau iechyd a chynghorau wneud yn siŵr bod gan eu staff nhw sgiliau Cymraeg.



Fe fyddwn ni'n ysgrifennu rheol gref yn y canllaw am wneud yn siŵr bod gwasanaethau **GIP** ar gael yn Gymraeg.

Cwestiwn 11

Oes rhywbeth arall yr ydych eisiau ei ddweud?

Roedd y rhan fwyaf o'r atebion i'r cwestiwn yma yn siarad am broblemau gyda sut i wneud yn siŵr bod y canllaw yn cael ei ddefnyddio'n iawn. Ac rydyn ni wedi siarad am hyn o dan Cwestiwn 1.

Beth byddwn ni'n ei wneud nesaf



Fe fyddwn ni'n ysgrifennu hyfforddiant ar y canllaw newydd i staff **GIP**.



Fe fyddwn ni'n gweithio ar wefan **Safle Gwasanaethau Gwybodaeth Gofal Cymhleth** i wneud yn siŵr ei bod hi'n cynnig y gefnogaeth orau i **GIP**.



Fe fyddwn ni'n gweithio gyda'r cyhoedd a grwpiau cleifion i ysgrifennu llyfryn am **GIP**. Fe fyddwn ni'n cael hwn yn barod erbyn Ebrill 2020.



Fe fyddwn ni'n gweithio gyda phartneriaid ar reolau eraill i helpu i glirio rhai pethau i fyny yn y canllaw.

Geiriau anodd

Adolygiad ôl-weiithredol

Adolygiad ôl-weiithredol ydy pan mae rhywun yn gofyn i gael edrych ar y gofal maen nhw wedi ei gael. Er enghraifft, pan maen nhw wedi talu tuag at eu gofal ond yn meddwl bod hyn yn anghywir.

Apêl

Apêl ydy pan rydych yn gofyn i benderfyniad gael ei newid.

Asesiad

Asesiad ydy pan mae rhywun yn edrych ar eich anghenion gofal a'ch cefnogaeth chi a sut maen nhw'n gallu cael eu hateb.

Asesiad gofalwr

Mae asesiad gofalwr yn edrych ar eich cyfrifoldebau gofalu chi a pha gefnogaeth rydych chi ei angen.

Cymwys

Mae cymwys yn meddwl bod gennych chi hawl i gael GIP oherwydd eich anghenion iechyd chi.

Dementia

Cyflwr ydy Dementia lle mae gan bobl broblemau gyda'u cof nhw ac maen nhw'n gallu bod yn ddryslyd.

Model Cymdeithasol

Mae'r Model Cymdeithasol yn canolbwyntio mwy ar sut rydyn ni'n gallu gwneud newidiadau i gefnogi pobl. Yn lle eu trin nhw dim ond oherwydd bod rhywbeth o'i le arnyn nhw.

Offeryn Cefnogi Penderfyniad

Mae'r Offeryn Cefnogi Penderfyniad yn ein helpu ni i benderfynu pwy sydd angen GIP.

Taliad Uniongyrchol

Taliad Uniongyrchol ydy pan rydych chi'n cael arian i brynu eich cefnogaeth a'ch gwasanaethau eich hun.